Rhaid i bob myfyriwr gofrestru'n ffurfiol gyda'r Gofrestrfa Academaidd yn y brifysgol ar ddechrau eu cwrs ac, yn dilyn hynny, bydd angen iddynt gadarnhau o bryd i'w gilydd eu bod yn parhau i fynychu eu cwrs.  Mae'n ofynnol bod y brifysgol yn cadw gwybodaeth gyfredol ar ei holl fyfyrwyr cofrestredig.  Gellir codi taliadau am gofrestru'n hwyr neu fethu â chadarnhau presenoldeb pan ofynnir am hynny.  Mae manylion am y taliadau hyn i'w cael yn y Rhestr Ffioedd Dysgu.

Mae myfyrwyr cofrestredig yn dod dan reolau a rheoliadau'r brifysgol a thynnir eich sylw'n neilltuol at y canlynol:

Mae'r brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr gwrdd â'r safonau ymddygiad a ddiffinnir gan ei rheoliadau. Bydd y brifysgol yn cymryd camau  disgyblu os bydd unrhyw achos o dorri'r rheoliadau.

Rhaid i bob myfyriwr dalu ffioedd a dirwyon a bennir gan y brifysgol.  Fel rheol, rhaid talu ffioedd cyn y cyfnod astudio ond gellir trefnu talu mewn rhandaliadau.  Lle bo myfyriwr yn mynd i ddyled o ran ffioedd academaidd (e.e. ffioedd dysgu), gall y brifysgol weithredu sancsiynau yn cynnwys: gwrthod â chaniatau i'r myfyriwr gofrestru, cadw dogfennau prifysgol yn ôl (e.e. tystysgrifau cymwysterau), cymryd dw d ybir " ȳ wrt ^ an e